Pont Dyfi Newydd

Cylchlythyr yr Haf



Edrych i gyfeiriad y de ar yr Arglawdd

Diweddariad Prosiect

Mae'r gwaith o adeiladu rhan grom y dec sydd wedi mynd rhagddo'n dda gyda'r tywydd braf trwy gydol mis Mai. Mae naw allan o'r deg arllwysiad concrit oedd wedi'u cynllunio, sy'n cynnwys tua 550 m^3 o goncrid, wedi'u cwblhau. Cafodd yr arllwysiad dec olaf ei gwblhau ym mis Mehefin a bydd mynediad i gerbydau i'r draphont o ategwaith y de ar gael ddiwedd mis Gorffennaf 2023. Bydd hyn yn caniatáu mynediad ar gyfer gosod parapetau dur, gosod dec y bont, gosod cyrbiau dec pont ddur, dwythellau gwasanaeth a mewnlenwad ymylon concrit a seliwr uniadau.

Unedau dec pont wedi'u gosod dros sy'n rhychwantu'r afon

Arllwysiad Concrit yn ei lle gyda phwmp

Gosod concrit ar ddec y bont

Yn ystod y Gwanwyn fe wnaethom ni godi tua 100 o unedau dec pontydd concrit rhag-gastiedig i bontio'r afon. Yn anffodus, profodd 29 o'r unedau hyn i fod yn ddiffygiol gyda chraciau helaeth ac nid ydynt yn cyrraedd y safonau o ansawdd uchel a ddisgwylir gan Griffiths. Rhaid ailosod yr unedau hyn ac ar hyn o bryd maen nhw'n cael eu hailgastio gan gyflenwr y concrit rhag-gastiedig. Mae hyn wedi arwain at oedi i'n rhaglen adeiladu sy'n golygu na fydd y bont ar agor ym mis Medi fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Craciau ar ben slab dec Rhag-gastiedig

Craciau ar unedau dec pont rhag-gastiedig (soffit)

Gosod trawstiau ar ymyl ochr ddwyreiniol y bont

Gosod trawstiau ymyl rhag-gastiedig

Mae'r gwaith o osod y trawstiau ymyl concrit rhag-gastiedig yn mynd rhagddo'n dda gyda thua 75% wedi'i gwblhau.

Adeiladu troedffordd tuag at y bont reilffordd

Cyrbiau ar yr arglawdd deheuol

Mae'r gwaith o adeiladu'r arglawdd deheuol wedi'i gwblhau, yr holl ddraeniad wedi'i osod a chyrbiau wedi'u hadeiladu i'r ategwaith deheuol. Mae'r ardal hon yn barod ar gyfer adeiladu bitwminaidd. Rydym ni wedi cychwyn ar y gwaith goleuadau stryd gyda 3 colofn oleuadau wedi'u codi ychydig i'r gogledd o bont y rheilffordd.

Gorsaf Bwmpio PS1 Pont Reilffordd

Gorsaf Bwmpio PS1 - Cwblhawyd gwaith sifil gan gynnwys cysylltiad ciosg a phrif gyflenwad Scottish Power.

Gorsaf Bwmpio PS2 — Gwaith sifil wedi'i gwblhau ar wahân i groesfan y briffordd sy'n codi yn gwrthdaro â bloc gwthio Dŵr Cymru/Welsh Water.

Graffiti ar Golofnau Pont

Ar ôl rhyw 12 mis ar y safle a hynny heb fandaliaeth, rydym ni wedi dod ar draws ein hachos cyntaf o graffiti ar y cynllun. Mae rhywun wedi mynd i mewn i'r safle adeiladu yn anghyfreithlon ac wedi hagru 2 o golofnau'r bont ger yr afon.

Mae safleoedd adeiladu yn fannau peryglus sy'n cyflwyno peryglon diogelwch i dresmaswyr. Mae mesurau diogelwch ychwanegol bellach yn cael eu gosod i geisio atal unrhyw ddigwyddiadau pellach.

Amgylchedd

Rheoli Rhododendron

Wedi'i restru ar atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mae rhywogaethau anfrodorol ymledol Rhododendron wyllt wedi llwyddo i ledaenu a chymryd mwy na 2,000 hectar mewn can mlynedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae Rhododendron yn asideiddio priddoedd ac yn eu gwneud yn amhosib i rywogaethau eraill ffynnu, mae'n wenwynig, ac fe wnaeth astudiaethau gan Brifysgol Bangor ganfod bod llosgi Rhododendron wyllt yn rhyddhau nwyon carsinogenig (PhD Ninaber 2009).

Eisoes mae tir cynhyrchiol, yn goedwigaeth fasnachol ac yn dir pori, sydd i bob pwrpas wedi cael ei adael oherwydd i Rododendron wyllt ymsefydlu yn y safleoedd hyn. Ychydig o ymdrech sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i weithio'r tiroedd hyn oherwydd y costau economaidd sy'n gysylltiedig â rheoli Rhododendron wyllt ac os na wneir unrhyw ymgais i reoli a chael gwared ar y planhigyn, bydd yn parhau i ledaenu i'r amgylchedd ehangach.

Bydd hyn yn cael effeithiau andwyol dwys ar ecoleg, gwerth economaidd-gymdeithasol a rhinweddau esthetig y Coedwigoedd Glaw Celtaidd yng Nghymru a thir arall y tu allan i Eryri yma ym Machynlleth. Os oes gennych chi Rododendron wyllt ar eich tir, mae'r rheolaeth sy'n cael ei argymell yn cynnwys naddu a chwistrellu coesyn gyda chwynladdwr i sicrhau bod y planhigyn, gan gynnwys y gwreiddiau, yn cael ei ladd gan y chwynladdwr. Mae chwistrellu coesyn yn cael ei anelu'n bwrpasol ac nid yw'n effeithio ar fflora a ffawna eraill. Ym Mhrosiect Pont Dyfi Newydd, rydym ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â Rhododendron wyllt o fewn ôl troed y cynllun.

Darganfyddiad Anarferol

Ar ôl agor blwch o folltau a oedd wedi cyrraedd gan wneuthurwr y bont ddur, darganfuwyd y Ceiliog Rhedyn yr Aifft hwn (Anacridium aegyptium), llun isod, er syndod mawr i adeiladwyr y bont.

Roedd wedi teithio o ogledd yr Eidal, ar draws Alpau'r Swistir, trwy Ffrainc ac ar draws y Sianel. Taith o 1,210 milltir mewn tymereddau is na sero. Fe'i trosglwyddwyd i Ymgynghorydd Amgylchedd y Safle ar gyfer y prosiect ac fe gysylltodd â chanolfannau achub anifeiliaid lleol a Sŵ Caer.

Daeth o hyd i gartref dros dro o dan ddail planhigyn Yucca. Roedd maint y ceiliog rhedyn yn awgrymu ei bod yn fenyw, gan ei bod bron yn 70mm o hyd, mae gwrywod ond yn tyfu hyd at 56mm o hyd. Er eu bod yn edrych yn debyg i locust, mae Ceiliog Rhedyn yr Aifft yn byw mewn coed a llwyni sy'n bwydo ar ddail ac nid ydynt yn niweidiol i gnydau. Mae ein gwestai sydd wedi teithio ymhell yn byw'n gyfforddus mewn amgylchedd mwy addas ym Myd Natur Pili Palas ar Ynys Môn bellach.

Pwyllgor Achosion Da Griffiths

Yn ystod gwyliau'r Sulgwyn ymwelodd Griffiths ag Ysgol Gynradd Pennal i ailosod ffensys pren a defnyddiwyd y pren dros ben i wneud y planwyr hyfryd hyn ar gyfer yr ysgol.

Gyrfaoedd

Mae'r tîm yn Griffiths yn awyddus i gefnogi ysgolion, colegau a phrifysgolion gydag arweiniad a chymorth gyrfaol. Mae llawer o fyfyrwyr wedi ymweld â safle Pont Dyfi, gan fwynhau teithiau cerdded ar hyd yr Hawl Dramwy Gyhoeddus bresennol dan arweiniad tîm y safle. Mae'r adnoddau addysgol sydd ar gael yn cynnwys Swyddi ym maes Adeiladu | Swyddi Dyfodol Cymru (llyw.cymru) sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r diwydiant, a grëwyd gan Gyrfa Cymru. Gellir dod o hyd i adnoddau addysgu rhyngweithiol dwyieithog ar Hwb Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion o'r enw GO CONSTRUCT Educate. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jane, manylion isod.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Agor Bwa Segur, Machynlleth

Bydd mynediad i gerddwyr a beicwyr yn cael ei wella yn y lleoliad uchod.

Oriau Gwaith Cyfredol

Wrth i'r gwanwyn agosáu, gall oriau gwaith ymestyn i fanteisio'n llawn ar y nosweithiau ysgafnach a thywydd gwell gobeithio.

Bydd yr oriau newydd hyn fel a ganlyn:

Dydd Llun i Ddydd Gwener
– 7:30am-7:00pm

Dydd Sadwrn a Dydd Sul
Gellir ymestyn oriau i 7:00am i 7:00pm

Bydd hyn hefyd yn cynnig opsiwn amgen i'r llwybr cerdded presennol.

Troedffordd uwch bresennol

Drychiad y Gogledd

Drychiad y De

Y bwriad yw agor y bwa sydd wedi'i 'lenwi', ac atgyfnerthu'r strwythur gyda leinin concrid cyfnerthedig. Bwriedir cynnal y gwaith yn ystod meddiant 14 diwrnod o'r rheilffordd rhwng 20 Hydref 2023 a 3 Tachwedd 2023.